AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 238 Hydref – Tachwedd 2022

# Gwyliedydd



Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol
well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu,
trwy'r gallu sydd ar waith ynom ni, iddo ef y bo'r
gogoniant yn yr eglwys ac yng Nghrist Iesu,
o genhedlaeth i genhedlaeth, byth bythoedd! Amen.

**(Effesiaid 3: 20-21)**

# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Ar 1 Medi, cefais y fraint o bregethu mewn gwasanaeth yng nghapel Shiloh, Tregarth, i groesawu'r Parchedig Ddr Ian Morris i'w rôl newydd fel Arolygydd Cylchdaith Cymru ac Arweinydd Ardal Gwynedd a Môn. Cymeraf y cyfle i rannu'r neges â darllenwyr y *Gwyliedydd*:

"Mae'n braf dod at ein gilydd! Mae'n ddydd cyntaf blwyddyn Fethodistaidd newydd, dydd cyntaf ein Synod newydd ac yn bennod newydd ym mywyd yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru wrth i'n gwaith Cymraeg a Saesneg ddod at ei gilydd. Rydyn ni yma i addoli Duw ac i groesawu Ian fel Arolygydd Cylchdaith Cymru ac Arweinydd Ardal Gwynedd a Môn, ochr yn ochr â'i waith presennol. Does dim angen imi gyflwyno Ian: mae o wedi gwasanaethu yng Nghymru ers y flwyddyn 2000. Mae'n caru Duw a'i eglwys, yr Eglwys Fethodistaidd a Chymru – y 'CV' iawn i gyflawni'r gwaith! Dydy Ian ddim yn newydd, ond mae'n dechrau ar rôl newydd ar adeg pan mae llawer o bethau newydd eraill yn digwydd. Gweddïwn am fendith Duw arno.


Digon o bethau 'newydd', felly: blwyddyn gyfundebol newydd, Synod newydd, cyfrifoldebau newydd, trefn newydd ar gyfer Cadeiryddion y Synod (Cadeiryddion wedi'u hailgylchu!). Yn ôl Eseia, mae Duw yn dweud, "Wele, y mae'r pethau cyntaf wedi digwydd, a mynegaf yn awr bethau newydd; cyn iddynt darddu rwy'n eu hysbysu i chwi" (Eseia 42: 9).

Ochr yn ochr â'r pethau newydd y soniwyd amdanynt yn barod – pethau o'n dewis ni a phethau y gwnaethom gytuno iddynt – mae llawer o bethau yn digwydd sy'n ein gwneud yn llai hapus, yn wir yn anhapus iawn. Dwi'n meddwl am yr argyfwng economaidd sy'n dyfnhau ac sy'n dod â chanlyniadau lawer; ac am effeithiau newid hinsawdd ar ein hamgylchedd, dyfodol ein planed a bywoliaeth a chynefin cynifer o drigolion y byd. Hefyd, yr ansefydlogrwydd gwleidyddol mewn cynifer o wledydd, o'r rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng ffoaduriaid, i aros i glywed am Brif Weinidog newydd yn San Steffan. Rydym wedi byw trwy ddwy flynedd a hanner o bandemig ac mae'r effeithiau'n bellgyrhaeddol i'n cymdeithas a'n heglwysi. Mae'r pethau hyn wedi codi mewn cynifer o'r sgyrsiau a gefais yn ddiweddar. Rydym i gyd yn meddwl amdanynt ac, i ryw raddau, yn eu hofni.

Sut i ymateb i'r sefyllfa fel pobl Dduw? Sut i weithio gydag Ian er mwyn ymateb, wrth iddo ddechrau yn ei rôl newydd? Mae Duw yn dweud: "Wele, y mae'r pethau cyntaf wedi digwydd, a mynegaf yn awr bethau newydd...", ond mae llawer o hen bethau o gwmpas o hyd hefyd! Yn eironig, soniwyd am rai yn ein darlleniad heno o'r Testament *Newydd* (Luc 4: 16-21), ac maen nhw mor berthnasol heddiw ag yn nyddiau Iesu ac ym mywyd yr eglwys fore. Mae cyd-destun ein galwad fel dilynwyr Iesu yn newid dros y blynyddoedd, ond mae'r pethau sylfaenol yn aros yr un. Fel disgyblion heddiw, cawn ein galw hefyd i "bregethu'r newyddion da i dlodion...i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd" (Luc 4: 18-19).

Dydy hynny ddim yn newydd. Doedd o ddim i Iesu, hyd yn oed - roedd o'n atseinio geiriau Eseia! Fel yr eglwys fore, yn ôl Actau pennod 2, rydym yn cael ein galw i addoli, dysgu a gofalu, gwasanaethu ac efengylu. Dyna elfennau 'Ein Galwad' yr Eglwys Fethodistaidd, wrth gwrs, ac sy'n mynd â ni yn ôl at ein gwreiddiau. Dros 2000 o flynyddoedd yn ôl, dywedodd y Pregethwr, "nid oes dim byd newydd dan yr haul" (1:9), ond yn aml, byddwn ni'n chwilio am y Peth Mawr Nesaf sy'n mynd i'n gwaredu a gwneud popeth yn iawn. Rwy'n meddwl mwy a mwy, pe baem ni jyst yn gallu ffocysu mwy ar addoli Duw a gofalu am ein gilydd a'r byd, dyna yw'r hanfod. Y gaeaf hwn, fydd pobl ddim yn chwilio am ddim byd newydd a ffansi, ond am groeso cynnes, diod cynnes a phobl sy'n barod i wrando mewn lle diogel. Dydy o ddim yn gymhleth, ac rydym ni, fel eglwysi, gan weithio'n ecwmenaidd, mewn lle da i ymateb, â'n gwreiddiau yng nghariad a chroeso Duw. Agorwn ein drysau yn lletach – hyd yn oed os byddwn yn eu cau wedyn cyn gynted ag y gallwn er mwyn cadw'r gwres i mewn!

Felly, mae llawer o bethau newydd – pethau rydym eu heisiau a phethau nad ydym ni ddim – ond rydym bob amser yn cael ein dal, ein cynnal a'n cadw yng nghariad tragwyddol, diamod, holl-gymhwysol Duw, sydd ddim yn newydd o gwbl! Dyma'r cariad y mae Ian am barhau i'w rannu yn ein plith. Croesawn ef i'w rôl newydd. Boed i Dduw ein bendithio yn ei wasanaeth ac er ei ogoniant. Amen!"




*Cwmwl Teulu* gan Richard Gillion

Ar 15 Hydref ym Mathafarn Rhuthun trefnir prynhawn gan Ferched Methodistaidd yng ngwledydd Prydain yng nghwmni Angharad Tomos. Croeso cynnes i bawb – bydd yn braf iawn dod at ein gilydd eto.



# Gwyliedydd


**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 238**
**HYDREF – TACHWEDD 2022**
Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £7.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
7 Tachwedd 2022

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA**

Llun y clawr gan Robin Jones
Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


# Diolch

Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd.*

| | |
|---|---|
| Capel Ebeneser, Dolgellau | £100-00 |
| Y Parchedig Richard Gillion | £75-00 |
| Dienw | £100-00 |
| Y Diacon Stephen Roe | £25-00 |
| Llywela O'Brien, Bangor | £15-00 |
| Dienw | £10-00 |
| Cyfarfod Ardal, Gwynedd a Môn | £500-00 |
| Islwyn Evans, Llanfairfechan | £20-00 |
| **CYFANSWM** | **£845-00** |



**Y Parchedig Jennie Hurd, cyd-Gadeirydd y Dalaith, yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**

Boed bendith Duw ar y gwasanaethau ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

**Hydref**
2 Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd
9 Glannau Maelor
16 Gwynedd a Môn
23 Gwyliau
30 Ceredigion a Meirionnydd

**Tachwedd**
6 Morgannwg
13 Gwynedd a Môn
20 Glannau Maelor
27 Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd (yng nghwmni'r Parchedig Graham Thompson, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd)

# Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

| | |
|---|---|
| Gwyn a Bronwen Evans | £ 20.00 |
| Eglwys Fethodistaidd Unedig Colwyn | £150.00 |
| Y Chwaer Eluned Williams | £ 20.00 |
| Gareth a Myfanwy Hughes | £ 20.00 |

Anfonwyd y swm o £210.00 ymlaen yn enw Cylchdaith Cymru.

**Apêl Anrhegion Nadolig**: yn dilyn saib oherwydd y cyfnod clo, rydym yn gallu ailafael yn yr ymgyrch i gasglu anrhegion Nadolig. *Gweler tudalen gefn y rhifyn hwn.* Byddwn ni yn eu derbyn, yna eu trosglwyddo i'r swyddfa yma yn Wrecsam er mwyn iddynt eu rhannu rhwng y gwahanol brosiectau. Os bydd angen, mae modd i ni eu casglu gennych o le canolog.

**Bydd angen y rhoddion cyn diwedd mis Tachwedd**.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.
Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717 cwrteden@gmail.com

# MAE DIGON O FWYD AR GAEL I BAWB

gan **Glyn Tomos**



Ers tua dwy flynedd bellach rwyf wedi mentro plannu tatws yn yr ardd gefn, sydd wedi bod yn brofiad cwbl newydd i mi. Cadw'r ardd yn dwt ac yn daclus fu'r nod gen i am flynyddoedd gan dorri'r gwair a'r gwrych a phlannu ychydig flodau er mwyn cael lliw i'r ardd. Wedyn os oedd amser yn caniatáu, bachu ar y cyfle i eistedd yn yr ardd gefn yn wyneb yr haul a mwynhau'r natur o gwmpas. Alla i ddim meddwl am unrhyw beth gwell i'r corff a'r enaid!

Dwi'n eich clywed yn gofyn, sut datws gafodd o? Yr ateb ydy bod cnwd digon del o datws wedi eu casglu – cymaint felly fel fy mod wedi gallu eu rhannu gyda rhai o'r teulu a ffrindiau. Mae'r ymateb wedi bod yn galonogol, gyda phawb yn dweud eu bod yn flasus ond bod rhaid gochel rhag eu berwi ar dymheredd rhy uchel gan fod perygl iddynt ddiflannu gyda'r dŵr!

Rhaid cyfaddef, mae plannu'r hadau wedi bod yn brofiad a hanner. Pan ddaeth yr awr fawr i mi eu codi o'r pridd roedd y cyfan fel gwyrth o flaen fy llygaid. Er mai fi a'u plannodd a'u dyfrio am fisoedd er mwyn rhoi'r cyfle a'r amodau gorau posib i sicrhau cnwd da o datws, roedd y gwaith pwysicaf yn digwydd yn ddistaw bach ac o'r golwg o dan y pridd. Dyn a natur yn cydweithio yn berffaith.

Yr un wefr mae rhywun wedi ei gael ers yn blentyn wrth gasglu llus, mwyar duon ac afalau. Dwi'n wastad yn rhyfeddu wrth weld yr holl gynnyrch o'n cwmpas a bod mwy na digon wedi bod ar gael eto eleni. Yna eu troi yn jeli, jam, teisen neu grymbl, a naill ai eu bwyta yn syth, neu rewi yr hyn sydd ar ôl neu'r cyfan. Yn ein tŷ ni, unwaith eto, mae cais wedi bod am gyflenwad o botiau jam gwag ar gyfer eu llenwi gyda jeli a chutney afal a'u cadw fel anrhegion Nadolig i aelodau'r teulu a ffrindiau.

Wrth feddwl am y costau byw aruthrol o uchel sydd yn wynebu pob un ohonom y dyddiau hyn mae'n gysur o'r mwyaf cael troi at fyd natur hael. Fe allaf ddeall y wefr yr oedd fy nhad a'i gyfoedion yn ei deimlo slawer dydd ar ôl diwrnod caled o waith yn y chwarel ar gyflog isel, yn troi at yr ardd i blannu tatws, ffa, pys a moron ar gyfer bwydo'r teulu. Arweiniodd hyn at sawl pryd blasus a chinio dydd Sul yn cyrraedd y bwrdd bwyd, a Nhad yn gallu dweud yn llawen ac yn ddiolchgar fod y cyfan ar ein plât, ar wahân i'r cig a grefi, wedi dod yn uniongyrchol o'r ardd.

Er nad oes yr un bri yn perthyn bellach i wasanaethau Gŵyl Diolchgarwch am y Cynhaeaf, maent yr un mor bwysig ag erioed o'r blaen. Mae'n gyfle i ddiolch i Dduw am ei haelioni mawr tuag atom, ac ar yr un pryd ddiolch am y rhai sydd yn rhoi o'u hamser yn gwbl wirfoddol (nifer fawr ohonynt yn aelodau o Gapeli ac Eglwysi) i rannu bwyd drwy fanciau bwyd.

Er mai dim ond pum torth haidd a dau bysgodyn oedd ar gael ar gyfer y cannoedd ddaeth i weld a chlywed Crist, llwyddwyd i fwydo pawb oedd yn bresennol. Fel un o wledydd cyfoethocaf y byd, ni ddylem weld plant ac oedolion yn mynd heb fwyd, a ninnau yn gwybod os rhennir ef yn gyfartal ac yn deg bod digon ar gael i bawb. Peidied neb â dweud yn wahanol wrthym.

# O'r Pen Yma



gan **Angharad Tomos**




Rhaid i mi gyfaddef mai un o'r pethau sy'n trethu f'amynedd fwyaf yw ymwneud â chyrff biwrocrataidd ar y ffôn. Rwy'n casáu unrhyw fath o fiwrocratiaeth, a theg yw dweud fod gen i alergedd i ffurflenni, ond credaf fod ymwneud ar y ffôn yn waeth. (Dydi o ddim yn help fod gen i ofn ffonau). Dydi o ddim cynddrwg os ydw i'n ffonio ffrind neu gydnabod am sgwrs fer – o leiaf dwi'n adnabod perchennog y llais yr ochr arall i'r lein. Ond mae gorfod ffonio pobl ddiarth yn anathema.

Dylai pethau yn yr oes ddigidol hon fod yn haws, ond dydyn nhw ddim. Bellach, ateb rhyw gyfrifiadur ydych chi, sydd am i chi bwyso cyfres o rifau ar y ffôn, ac ateb cwestiynau wrth bwyso '1' neu '2'. Yna daw y gerddoriaeth undonog honno ar y lein, sy'n golygu aros am gyfnod amhenodol, tra mae eich pwysau gwaed yn codi i'r entrychion. Pan ddaw person ar y ffôn yn y diwedd, dydi o neu hi ddim eisiau sgwrs gall, maent eisiau darllen rhestr hir o amodau – fel rheol yn Saesneg. Rydych yn ceisio egluro fod hyn yn ddiangen, ond rhaid eu darllen a rhaid i chithau wrando. Wedi mynd drwy hyn i gyd, cewch yr eglurhad siomedig eich bod yn yr adran anghywir, yn trafod y polisi anghywir, neu os ydych chi yn yr adran gywir, nad oes dim fedrant ei wneud i'ch helpu. Mae eisiau gras.

Tydi'n braf gwybod nad fel hyn mae gweddi yn gweithio? Dychmygwch weddïo ar fater sy'n peri loes gwirioneddol i chi, a chael llais yn dweud nad oes neb ar gael i dderbyn eich galwad, a bod eisiau i chi weddïo ar amser gwahanol. Neu eich bod yn mynegi gweddi daer o ddiolchgarwch, a bod Duw yn gofyn i chi am eich enw, eich cod post a llinell gyntaf eich cyfeiriad cyn gwrando arnoch. Dychymygwch eich hun yn rhoi gair o weddi mewn cyfyngder, a chael yr ateb fod rhaid i chi nodi eich cyfrinair yn gyntaf.

Wrth weddïo, neu ddarllen y Gair, neu glywed pregeth, cawn deimlad o heddwch – fod rhywun wrth law 'i wrando cri'. Does gennym ddim rhifau, cyfrineiriau, na dogfennau pwysig, ond mae'r gwarant eisoes wedi ei roi. Mae symlrwydd y cyfan yn apelio ataf. "Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch." Mae'r pris wedi ei dalu, mae'r cariad yn ddiamod, a'r cyfan sydd raid inni ei wneud yw ei dderbyn.

Diolch i Dduw, ddywedaf i!

# Wrth fynd heibio

gan **William H. Owen**

Ni fyddaf yn or-hoff o wrando ar rai sy'n mynd i fanylion am eu gwyliau. Y tro yma rhaid i mi gyfaddef mai fi sydd ar fai am wneud hynny! Pan fyddwch wedi treulio ychydig ddyddiau ym mhentref nodedig Oberammergau yn yr Almaen mae'n anodd peidio â defnyddio'r achlysur fel testun colofn.

Bob deng mlynedd er 1633 mae trigolion Oberammergau wledig wedi llwyfannu pasiant dioddefaint Crist yn Almaeneg. Wrth gwrs, roedd y pandemig wedi amharu ar y patrwm ac roedd pasiant eleni ddwy flynedd yn hwyr. Bu enghreifftiau o'r blaen pan na chafodd ei gynnal – adeg yr ail ryfel byd yn un – ond prin yw'r adegau pan fu'n rhaid ei ohirio.

Oherwydd i ŵr ddod â phla i'r pentref yn yr ail ganrif ar bymtheg yr ymdynghedwyd i gynnal pasiant o'r fath bob deng mlynedd. Mae'n amlwg yn ymdrech bentrefol enfawr gyda thros 2,000 o'r pentrefwyr yn cymryd rhan y tro hwn. Mae hawl i dynnu rhai o'r tu allan i berfformio



os oes prinder pobl gyda dawn actio neu ganu.

Yn oes y perfformiadau byr mae pasiant Oberammergau yn un a all drethu'r amynedd. Mae'n rhaid eistedd o 1.30 tan 4.00 o'r gloch cyn egwyl o deirawr am fwyd yn y pentref. Yna'n ôl wedyn erbyn 7.00 i'r ail hanner a hwnnw'n para tan 9.45 eleni beth bynnag, heb bwt o doriad i'r gynulleidfa, tipyn o ddioddefaint i rywun fel fi sy'n ei chael yn anodd eistedd yn llonydd mor hir.

Gyda golygfeydd o hanes Crist cyn y croeshoelio yn digwydd ar lwyfan llydan rhwng caneuon côr niferus roedd hi'n drawiadol iawn gweld defaid a geifr a dau gamel ar y llwyfan am gyfnodau byr. A phan ddaeth y Rhufeiniaid i'r golwg roedd eu ceffylau cryfion yn camu'n dalog o un ochr i'r llwyfan i'r llall yn cyfleu ymddygiad trahaus y milwyr a'u hagwedd at frenin yr Iddewon.

Ymhlith yr holl olygfeydd – a gellid dadlau fod gormod ohonynt – y rhai a wnaeth yr argraff bennaf arnaf i oedd y Swper Olaf, yna'r dorf fawr ar y llwyfan yn gweiddi am ei waed, Pilat yn golchi ei ddwylo a thaflu'r dŵr am ben criw o ferched, a'r pinacl, y croeshoelio ei hun. Ni ddaliwyd dim yn ôl, roedd y cyfan yno yn ei holl greulondeb. Gosodwyd tair croes uchel yn grefftus gynnil ar y llwyfan eang i'r ddau leidr ac Iesu Grist ei hun, y tri'n cael eu 'hoelio' yno, ac Iesu'n cael ei wawdio a'i archolli.

Tynnwyd y ddau ddihiryn i lawr yn ddiseremoni, yn wahanol i wrthrych y pasiant. Yn ddeheuig iawn dygwyd ef i lawr o'i groes yn araf gyda llieiniau hir a'i osod ar lawr i'w ymgeleddu cyn cludo'i gorff ymaith.

A dyna'r diwedd? Na, bu un olygfa fer i gyfleu'r atgyfodiad, er nad yw hynny wedi digwydd bob tro yn y gorffennol.

Oedd, roedd yn brofiad a bery'n hir yn y cof. Eto mae rhyw chwa o amheuaeth yn dod heibio wrth ystyried a yw dioddefaint Crist wedi ei or-fasnacheiddio yma. Wyddem ni ddim nes gweld ar y tocyn fod seddi parti Teithiau Elfyn Thomas wedi costio £200 yr un (gyda chyfieithiad Saesneg yn gynwysedig). Roedd y theatr yn dal dros 4,000 ac roedd yn llawn y diwrnod hwnnw ac mae'n debyg ei bod yr un fath am bum diwrnod yr wythnos rhwng Mai a Medi. Mae'r elw a wneir o fudd i gynnal y pentref am ddeng mlynedd. A fyddai Crist wedi cymeradwyo eu menter?



LLUN: TEITHIAU ELFYN THOMAS

# O'R LLAN

gan y Canon Idris Thomas

**LLADRATA**
Pan ddaw y pennawd uchod i'm sylw, geiriau'r Iesu o'r bymthegfed bennod o Efengyl Mathew sy'n dod i'r meddwl sef "oherwydd o'r galon y daw cynlluniau drygionus ...lladrata...dyma'r pethau sy'n halogi dyn". Clywsom oll pan oeddem yn ddim o beth, am yr wythfed o'r Deg Gorchymyn sef "Na ladrata". Mewn ambell addoldy gwelir y Deg Gorchymyn ar dabled ar y mur. Mae lladrata eiddo personol o bob math yn creu teimladau hynod drist a chaiff ganlyniad andwyol a rhwystredig iawn ar y rhai sy'n profi'r fath beth. Fel y profais ar adegau o'r fath, nid yw yn fater hawdd o gwbl ceisio cysuro y rhai sydd wedi dioddef yr hunllef. Mae lladrata yn peri ing at ddagrau a chanlyniad y fath erchylltra i rai sy'n gofyn "pam fi ?" yw colli iechyd. Mae'n anodd dirnad fod yna unigolion neu haid ohonynt wedi bod yn trin eiddo hynod bersonol a gwerthfawr. Syrthio i ddyfnderoedd o siomiant a wna dioddefwyr lladrad. Yn drist iawn, fel y gwyddom, nid yw lleoedd cysegredig yn dianc o'r fath sarhad-yn wir caiff addoldai o bob enwad heddiw eu targedu yn gyson. Mae'r weithred yn peri loes enfawr i ffyddloniaid y sancteiddiolaf leoedd.

**HALOGIAD**
Y gair uchod (sacrilege yn Saesneg) gyda'i ystyr cysegr-ladrad neu cysegr-ysbeiliad a ddefnyddir pan ddigwydd lladrad yn ein haddoldai. Dychryn wnes wrth ddarllen mai grŵp o ladron oedd yn gyfrifol am ddwyn plwm oddi ar ddeuddeg o doeau eglwysi yng Ngwlad yr Haf. Arweiniodd hyn i un Offeiriad o'r eglwysi a effeithwyd, i alw am ail-feddwl difrifol yn y rheolau cynllunio treftadaeth sy'n mynnu fod yn rhaid i'r addoldai rhestredig hyn ail osod y plwm. "Pam rhoi rhywbeth o werth sy'n hawdd ei symud yn ôl ar y toeau?" oedd ymateb yr Offeiriad a hynny wrth gofio fod ei eglwys Gradd 1 wedi ei thargedu ddwywaith mewn deuddeng niwrnod! Cytunaf gyda'r offeiriad hwn, pan ddywed fod ei gymuned yn dweud wrtho fod yn rhaid symud y rheswm pam fod lladron yn cael eu denu i'w eglwys mor aml. Rhaid cofio fod modd heddiw gosod deunyddiau eraill sydd hyd yn oed yn edrych fel plwm! Dywedodd Esgobaeth Caerfaddon mai £95,000 fyddai'r gost o roi plwm newydd ar do yr eglwys ond oherwydd y difrod ychwanegol i'r to byddai'r gost llawn oddeutu £350, 000.




Ar nosweithiau stormus mae'r lladron wrth eu gwaith fel nad yw eu sŵn dieflig i'w glywed yn dda.

**UGAIN EGLWYS a DWY FILIWN O GOST!**
Anhygoel o drist oedd clywed hefyd fod pedwar o ladron wedi targedu ugain o eglwysi gwledig yn Lloegr, mewn cyfnod o ddwy flynedd gan greu difrod o ddwy filiwn o bunnau. Yn Llys y Goron Lincoln, lle cawsant eu dedfrydu yn hallt, mynegodd y Barnwr eu bod oll yn ladron soffistigedig, taer a diegwyddor. Gwir oedd geiriau y cwmni Yswiriant –"nid difrod materol yn unig yw hyn oherwydd nid brics a morter yn unig yw addoldai ond pobl a'u cymunedau".

**Y DEG GORCHYMYN**
"Rhyw relics o reolau.-Yn ein hoes
maent yn niwsans weithiau.
Ond wedyn trwy'n gwendidau
hir yw ein cur o'u nacâu"
Einion Evans

Cofiwch eich bod yn cloi pob drws cyn clwydo a dyna yw neges Cledlyn Davies yn ei englyn dan y teitl CLO.

Nid tŷ byw clyd heb y clo;trwy ein hoes
Tarian yw,rhaid wrtho;
Rhyw gefn fyth rhag ofn yw fô
Tawel hedd tu ôl iddo.

**FICER "DAD'S ARMY"**
Ar hyd y blynyddoedd byddai rhywun yn gwallgofi a thristau yn aml wrth weld portreadau o rai offeiriaid a gweinidogion ar y teledu. Darluniwyd rhai ohonom fel rhyw greaduriaid od, rhyfedd, gwirion, diffygiol, diflas, a mwy! Gwnaed ni oll yn eithafol o wahanol gan ambell dwpsyn, a doedd ein portreadu ar y cyfryngau weithiau, yn giwed dwl oedd yn byw ar blaned arall, ddim o gymorth. O ran fy hun byddai'r dywediadau hurt fel "synnu eich gweld chi yn gwneud hyn" a "rhyfedd eich gweld chi yma" a mwy yn fy anfon i yn wallgof. Ymhob galwedigaeth rydym yn fodau gwahanol a hyn sy'n cyfoethogi'r ddynoliaeth. Rwyf ers ei dechrau, yn un o ffans mawr a selog "Dad's Army" ar y teledu-nid wyf yn blino edrych arni ac i mi ni aiff y gyfres byth yn hen a diflas. Bu farw Ficer Walmington-on -Sea yn y gyfres rhai misoedd yn ôl, sef y Parch. Timothy Farthing a chwaraewyd mor arbennig gan yr actor amryddawn Frank Williams. Roedd yn 90 oed. Mae ei atgofion yn ei lyfr "Vicar to Dad's Army" a ymddangosodd yn 2002 yn glasur. Roedd Frank Williams trwy ei fywyd yn perthyn i adain uchel Eglwysig a thraddodiadol o fewn Eglwys Loegr. Yn Synod yr Eglwys hon, siaradai bob amser yn huawdl yn enwedig pan glywai rhai diwinyddion rhyddfrydol, yn ei farn ef, yn ymosod ar athrawiaethau canolog y Ffydd Gristnogol. Meddai "mae pobl eisiau clywed y Ffydd Gristnogol yn cael ei chyhoeddi yn glir a heb anwadalwch." Coffa da am yr actiwr a'r crediniwr a daliwch i sbio ar ailddarllediadau Dad's Army!




# Bathafarn Bach

Cylchgrawn Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
**Rhif 11 – Hydref 2022**


## Gair gan swyddogion Pwyllgor y Gymdeithas Hanes


Bathafarn gan Rowena Wyn Jones

Fel y gŵyr y cyfarwydd, daw teitl ein cylchgrawn hanes, a gyhoeddir y tro hwn yn nhudalennau'r *Gwyliedydd,* o enw ffermdy ger Rhuthun, cartref Edward Jones. Roedd Edward Jones Bathafarn yn arloeswr a gweithiwr diflino a chwaraeodd ran bwysig iawn yn nyddiau cynnar y genhadaeth Wesleaidd Gymraeg.

Roedd *Bathafarn Bach*, a ddechreuodd yn 2011, yn olynu cylchgrawn *Bathafarn*, y cyhoeddwyd 32 o gyfrolau ohono rhwng sefydlu Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru yn 1946 a'r flwyddyn 2003. Yn Gymraeg yr ysgrifennwyd y rhan helaeth o gynnwys y cylchgrawn ar hyd y blynyddoedd, ond roedd cydweithio i gofnodi holl hanes y rhan hon o eglwys Dduw yng Nghymru yn nod o'r cychwyn cyntaf, gyda rhai erthyglau Saesneg yn ymddangos hefyd. Gobeithio'n fawr y bydd ein hanes yma yng Nghymru yn gymorth i'n huno wrth i Synod Cymru a Wales Synod ddod at ei gilydd yn un Dalaith yn awr.

Y Gymdeithas Hanes sydd yn gofalu am y cyhoeddiad hwn, o dan arweiniad ei phwyllgor, ac mae gweithgareddau eraill ar y gweill hefyd. Mae'n braf cael cyhoeddi fod pwyllgor y Gymdeithas wedi llwyddo i gyfarfod yr haf hwn, ar ôl hirlwm y pandemig, dan lywyddiaeth Mr Robin Jones. Cofiwyd gyda diolchgarwch am dri o rai a gollwyd ac a wnaeth gyfraniad nodedig i waith y Gymdeithas Hanes sef y Dr Glyn Tegai Hughes, y Parchg Gwilym O Jones a'r Fs Nia Rhosier. Mae dau aelod newydd wedi ymuno â'r pwyllgor sef Miss Menna Evans, Aberystwyth a Mr Medwyn Jones, Dinbych. Anfonwyd dymuniadau da a chyfarchion at y Llywydd blaenorol, y Dr Lionel Madden, gan ddiolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Gymdeithas Hanes dros nifer o flynyddoedd.

Mae trefniadau eisoes mewn llaw ar gyfer gweithgareddau'r Gymdeithas Hanes at y flwyddyn 2023. Bydd gwybodaeth i'w chael yn y *Gwyliedydd* mewn da bryd. Cofiwch fod y Gymdeithas yn agored i bawb a bod croeso hefyd i chi gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, yn hanesyn bach neu yn erthygl fwy sylweddol.

Gobeithio y cewch flas ar y rhifyn hwn gyda'i bwyslais ar Ganiadaeth y Cysegr. Diolch yn fawr i Mr Emyr Evans, Coedpoeth, am ymchwilio i'r hanes a'i gofnodi ar ein cyfer.




## Cwpan Bedydd

Daeth y cwpan bedydd hardd hwn o Gapel y Waun, Penisarwaun, Arfon, sydd wedi cau ers rhai blynyddoedd bellach. Yr arysgrif arno yw

Rhodd i Gapel y Waun
Er cof am Edwin
Gan Mr a Mrs W. Lloyd Davies
1890.

Er fy mod yn enedigol o Benisarwaun, ac er imi holi cyfeillion a chydnabod yn yr ardal, nid oes gennyf unrhyw wybodaeth am y teulu a gyflwynodd y cwpan. Byddwn yn falch iawn o allu ei drosglwyddo i aelod o'r teulu os yn bosibl.
*Norah O'Brien*
07974 572 941

# Canu Cynulleidfaol Rehoboth, Coedpoeth

gan Emyr Evans

Ar ddechrau teyrnasiad y Frenhines Fictoria yn 1837 nid oedd un côr yng Nghymru a fawr ddim cerddoriaeth, dim ond ychydig bach o donau traddodiadol syml. Roedd nifer fach iawn o unawdwyr yn teithio o le i le ac yn canu gyda'r delyn. Ar y pryd roedd y canu yn yr eglwysi (os oedd canu) yn ddigon gwael. Roedd llawer o'r addolwyr yn anllythrennog ac yn gwybod dim am gerddoriaeth a doedd y syniad o bedwar llais yn golygu dim.

Mae'n debyg mai dyna oedd y sefyllfa yn Rehoboth pan sefydlwyd yr achos yn 1840. Mewn erthygl yn y *Cylchgrawn Chwarterol* dywed Tom Carrington:


"Lled annelwig a dieffaith oedd y canu cyn 1859. Anfynych y gwelid offeryn cerdd mewn capel a rhaid oedd i'r arweinydd fodloni ar help sain-fforch yn unig."


Roedd 1859, wrth gwrs, yn flwyddyn nodedig. Dyma flwyddyn y Diwygiad, y Gymanfa Ganu gyntaf yn Aberdâr, cyhoeddi llyfr tonau Ieuan Gwyllt a sefydlu Cyfundrefn y Sol-Ffa yng Nghymru. Yn lleol, yn 1859 y ffurfiwyd Cylchdaith Coedpoeth.

## Carnrhawdfardd

Yn 1864 y dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu y capel Rehoboth newydd yng Nghoedpoeth ac yn yr un flwyddyn hefyd y daeth Thomas Jones (Canrhawdfardd) i fyw yn y pentref. Roedd hyn yn gaffaeliad hynod o bwysig i'r eglwys, y gylchdaith a'r ardal. Brodor oedd Thomas Jones o Fwlch y Creigiau ger Nannerch, Sir y Fflint. Dechreuodd astudio cerddoriaeth yn ifanc iawn a disgleiriodd yn y pwnc tra'n ddisgybl yn ysgol yr eglwys. Yn 16 mlwydd oed penodwyd ef yn arweinydd y gân ym Mryngolau, Cylchdaith Treffynnon. Bu yn y swydd honno o 1839 hyd 1852. Erbyn cyrraedd 18 mlwydd oed roedd yn athro medrus a bu llawer yn teithio o bell i dderbyn gwersi ganddo. Yn y cyfnod hwn dechreuodd gyfansoddi emyn-donau. Cyhoeddodd nifer o lyfrau yn cynnwys emyn-donau, anthemau a charolau, a gwerslyfrau i gynorthwyo y rhai oedd yn dysgu cerddoriaeth. Yn 1852 cyhoeddodd *Cydymaith yr Addolydd*.

Wedi cyrraedd Coedpoeth yn 1864 ymaelododd Thomas Jones yn Rehoboth a dewiswyd ef yn arweinydd y gân. Aeth ati i agor siop lyfrau ac argraffdy yn y pentref. Roedd yn cysodi ac yn argraffu ei weithiau ei hun. Yn 1868 cyhoeddodd "Moliant Israel", casgliad yn cynnwys 85 o emynau o'i gyfansoddiad ei hun. Roedd y llyfr hwn yn cael ei







ddefnyddio fel llyfr emynau swyddogol y Wesleaid am rai blynyddoedd.

Roedd Canrhawdfardd eisoes wedi dechrau pregethu yn Sir y Fflint ac ar ôl tair blynedd rhoddodd i fyny swydd arweinydd y gân yn Rehoboth er mwyn canolbwyntio ar bregethu. Wrth fynd o gapel i gapel gwelodd bod angen dybryd i wella'r canu yn y gylchdaith. Aeth ati felly i drefnu cyfarfodydd cerddorol yn y gylchdaith ac ef hefyd wnaeth ysgogi'r Gymanfa Ganu gyntaf yn Rehoboth yn 1890 o dan arweiniad Mr. E. Jones (Gwaenys).

Rhai o gyhoeddiadau Canrhawdfardd oedd *Golwg o Bryn Nebo*, *Yr Hafan Dymunol*, *Tyred Geidwad*, ei anthem *Gorffenwyd* a'i gantawd *Rhagluniaeth*. O'i holl emyn-donau dim ond un a ymddangosodd yn Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid yn 1929 sef *Bryngolau* (Rhif 340). Pan ddaeth yr achos i ben yn Rehoboth yn 1999 darganfuwyd copi gwreiddiol o'i gantawd *Rhagluniaeth* – 65 o dudalennau mewn llawysgrifen berffaith. Trosglwyddwyd y copi i Amgueddfa Wrecsam.


Yn 1902, ddwy flynedd cyn marwolaeth Canrhawdfardd, cyflwynwyd tysteb iddo fel gwerthfawrogiad o'i lafur maith a diffuant yn y gylchdaith. Mewn teyrnged a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth, yng nghylchgrawn *Y Cerddor*, Ionawr 1905, dywedodd R.T. Hughes: "Pe cawsai fanteision addysg yr oes hon a mwy o hamdden oddi wrth drafferthion bywyd buasai yn un o gerddorion blaenaf ein cenedl." Yn 1925 i nodi canmlwyddiant ei eni penderfynodd nifer o'i edmygwyr godi maen ar ei fedd ym Mynwent Coedpoeth, i gofio'n annwyl amdano.

## Cymanfaoedd

Erbyn 1892 roedd Robert Edward Jones, mab Canrhawdfardd, yn arweinydd y gân. Roedd yntau yn cyfansoddi tonau, weithiau yn cydweithio â'i dad, yn arwain corau lleol, yn rhoi gwersi cerddoriaeth ac yn beirniadu. Yn y cyfnod hwn daeth nifer o arweinwyr adnabyddus i arwain y Gymanfa Ganu, yn eu plith y Dr Caradog Roberts, Cynogfab a J.E. Morris ond yr un ddaeth fynychaf oedd Wilfred Jones (tad Miss Mabel Wilfrid Jones, Ysgol Grove Park, Wrecsam). Roedd Tom Carrington yn ystyried Wilfred Jones yn un o arweinwyr godidocaf Cymru.

Yn 1895 prynwyd harmoniwm i'r capel a bu hon yn ddefnyddiol am ddeng mlynedd. Darllenais fod sôn ar hyd a lled y wlad am ganu cynulleidfaol Rehoboth. Organyddion yr eglwys yn y cyfnod yma oedd W.E. Parry, William Carrington Jones, Philip Jones a Miss Price.

Roedd Robert Edward Jones yn arweinydd galluog ac yn mynnu cael y gorau allan o'r cantorion. Byddai weithiau mewn oedfa yn stopio'r canu ac yn dwrdio'r gynulleidfa am nad oedd y canu yn foddhaol ond roedd gan y rhai oedd yn ei gofio barch mawr tuag ato oherwydd ei wybodaeth a'i allu.



## Organ i Rehoboth

Ar ddechrau'r ganrif newydd gyda'r gynulleidfa yn cynyddu aeth y swyddogion a'r aelodau i deimlo bod yr amser yn aeddfed i osod organ bib fawr yn yr adeilad. Penderfynwyd prynu organ yn costio £400 gan gwmni Norman & Beard, Caer. Casglwyd £250 gan yr aelodau a chafwyd rhodd o £200 trwy garedigrwydd Ymddiriedolwyr Andrew Carnegie.

Cymerwyd misoedd i adeiladu'r organ ond erbyn haf 1905 roedd y gwaith wedi ei gwblhau. Ar Orffennaf 3ydd, chwaraewyd ar yr organ newydd gan Mr Harry Evans F.R.C.O., Merthyr. Hefyd caed gwasanaeth Mr David Ellis, Cefn Mawr, Mrs E. Wright Hughes, Wrecsam a chôr o 80 dan arweiniad Mr R.E. Jones. Yn ôl y *Cylchgrawn Chwarterol* llanwyd y capel eang i'r drysau ac agorwyd yr organ yn ddiddyled.

Yn sicr roedd yr organ yn fantais fawr ac yn hwb ymlaen i godi caniadaeth y cysegr yn Rehoboth i safon uchel. Yng nghwrs y blynyddoedd bu nifer o organyddion adnabyddus yn rhoi datganiadau ar yr organ. Yn eu plith roedd Dr Thalben Ball, H.F. Ellingford (St. George's Hall, Lerpwl) Dr Caradog Roberts, E.J. Cunnah, Dr Walter Williams a Sandy Macpherson (B.B.C.).

## Tom Carrington

Penodwyd Tom Carrington yn organydd y capel yn 1905 ac am flynyddoedd roedd canu cynulleidfaol Rehoboth mewn dwylo diogel gyda Robert Edward Jones yn arweinydd a Tom Carrington yn organydd.

Ganed Tom Carrington ym mhentref y Gwynfryn yn 1881 ac erbyn cyrraedd naw oed roedd wedi ei benodi yn organydd y capel. Un bore Sul daeth rhyw bregethwr i'r capel braidd yn gynnar i'w gyhoeddiad a gweld bachgen wrth yr offeryn ac meddai wrtho: "Gad di lonydd i'r harmoniwm machgen i, rhag ofn i ti ei thorri hi." Cafodd ei addysg yn ysgol Bwlchgwyn (yr un amser â Tegla) ac wedi gadael yr ysgol aeth fel prentis argraffu at Hughes a'i Fab, Wrecsam. Mewn amser daeth yn berchennog Gwasg y Seren, Coedpoeth. Am dros 50 o flynyddoedd bu'n organydd medrus ac ymroddgar. Bu hefyd yn flaenor, yn ysgrifennydd, yn Arolygwr yr Ysgol Sul ac yn ymddiriedolwr. Roedd yn ffyddlon yn y Seiat a phob cyfarfod arall. Gwnaeth bob un o'i swyddi yn raenus. Bu hefyd am flynyddoedd yn gwasanaethu'r enwad fel golygydd cerddorol y ddau gylchgrawn *Y Winllan* a'r *Eurgrawn*, yn ogystal â bod yn ysgrifennydd y Detholiad blynyddol am ddeng mlynedd ar hugain.

Yn 1929 cyhoeddwyd Llyfr Emynau a Thonau y ddau gyfundeb Methodistaidd a Tom Carrington oedd ysgrifennydd y Pwyllgor Cerddorol. Hwn oedd y llyfr a ddefnyddiwyd yn yr oedfaon am dros 70 o flynyddoedd.

## Cyfraniad neilltuol

Roedd Tom Carrington yn y rheng flaenaf yng Nghymru fel arweinydd cymanfaoedd a beirniad eisteddfodol. Bu'n teithio'n gyson i arwain cymanfaoedd ledled Cymru ac yn Lloegr. Yn 1931 ef oedd arweinydd y Gymanfa Ganu ym Mhafiliwn yr Eisteddfod ym Mangor. Yn y cymanfaoedd hyn roedd bob amser yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd y geiriau.

Cyfansoddodd lawer o donau. Yn eu plith mae *Gwynfryn, Y Gelli, Pant Rehedydd* ac *Ei Seren Ef* (Carol Nadolig i Blant). Mae tair o'i donau yn *Caneuon Ffydd* sef *Y Ddôl, Bryn Du* a *Manteg*. Yn 1955, i ddathlu hanner can mlynedd fel organydd Rehoboth a phymtheng mlynedd yn y Gwynfryn, cyhoeddwyd llawlyfr o'i



donau mwyaf poblogaidd fel tysteb iddo. Gwerthwyd y llyfryn, oedd â'r teitl *Doniau Da,* er budd Pwyllgor Ieuenctid yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru. Yna yn1956 cyhoeddodd lyfr defnyddiol o'r enw *Yr Ysgol Gân* – cyfres o wersi syml ar sut i ddarllen Tonic Sol -ffa.

Ar wahân i'w wasanaeth ym myd crefydd roedd Tom Carrington yn flaenllaw yn y gymdogaeth. Yn 1914 dechreuodd gyhoeddi'r papur newydd wythnosol *Cloch Maelor* ar gyfer Coedpoeth a'r pentrefi cyfagos. Yn 1919 ef oedd un o sylfaenwyr ac ysgrifennydd cyntaf Cymdeithas Ddiwylliadol *Y Felin.* Bu'r gymdeithas hon yn llwyddiant o'r dechrau a bu'n ffynnu am dros gan mlynedd nes iddi yn anffodus ddod i ben yn 2020 yn sgil haint y Covid.

Roedd hefyd yn Eisteddfodwr brwd ac yn 1928 derbyniwyd ef i'r orsedd gyda'r enw barddol Pencerdd Gwynfryn. Yn 1933 cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam ac ef oedd yr ysgrifennydd cyffredinol. Gwasg Y Seren oedd swyddfa'r Eisteddfod.

## Y traddodiad yn parhau

Wedi i Tom Carrington ymddeol o fod yn organydd yn 1957 roedd yr eglwys yn ffortunus iawn o gael organyddion medrus ac ymroddgar sef Emlyn Parry, Trevor Evans, Llewelyn Thomas, Wyn Carrington, Louie Parry, Glenys Bowring a Dewi Humphreys. Roedd y cynulliadau yn lleihau ond roedd nifer da o'r gynulleidfa yn aelodau o gorau'r cylch. Roedd Oedfa o Fawl yn cael ei chynnal ar bob Plan Chwarterol ac roedd pawb yn mwynhau y canu ac ymarfer tonau newydd o'r Detholiad.

Dau o'r cyfarfodydd mwyaf cofiadwy oedd darllediad teledu *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn 1965 (James Williams y B.B.C. yn arwain) a'r Gymanfa Ganu yn gysylltiedig â'r Gymanfa Gymreig yn 1963 (Rhys Jones yn arwain). Y capel yn orlawn ar y ddau achlysur.

Yn 1999 daeth yr achos i ben yn Rehoboth. Roedd yr adeilad mewn cyflwr peryglus (pydredd sych a'r tir yn suddo). Roedd yn rhaid dymchwel yr adeilad. Y pryder mawr oedd dyfodol yr organ ond er mawr ryddhad, llwyddwyd i'w gwerthu i Eglwys yn Oldham. Ar safle'r capel adeiladwyd fflatiau a rhoddwyd arnynt yr enw *Llys Rehoboth.*

## FFYNONELLAU

Mae llawer o hanesion Cylchdaith Coedpoeth i'w gweld yn y Cylchgronau Chwarterol sydd ar gadw yn Amgueddfa Wrecsam.

Mae erthygl gynhwysfawr am Tom Carrington gan ei nith Mair (Mair Carrington Roberts) yn yr *Eurgrawn* (Rhifyn Gaeaf 1981).



### Telyneg y Parchedig Arthur Williams

Un o blant Rehoboth oedd y Parchedig Arthur Williams (1910-1983), gweinidog yn yr Eglwys Fethodistaidd a bardd. Mae dau o'i emynau i'w gweld yn *Caneuon Ffydd* (rhifau 285 a 611).

Roedd yn edmygwr mawr o Tom Carrington a lluniodd y delyneg hon i gofio amdano yn 1961.

### Pencerdd Gwynfryn

Nid yw ef mwy yn Nant -y -Glyn
A'i femrwn dan ei law,
Ac ni ddaw nodyn lleddf na llon
O'i gafell dywel draw.

Ni lithra'r bysedd medrus mwy
Dros resi'r organ fawr,
A chwith Rehoboth heb ei ddawn
Ar eneiniedig awr.

Mae Pant Rehedydd dan y gwlith
A gemog yw y Ddôl,
A thra bo'r rhain, mi wn y daw
Y Pencerdd coll yn ôl.



# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Shiloh, Tregarth

### CROESO I AROLYGYDD NEWYDD CYLCHDAITH CYMRU

Cafwyd dechrau arbennig iawn i'r Flwyddyn Gyfundebol newydd pan gynhaliwyd gwasanaeth ar nos Iau y 1af o Fedi i groesawu'r Parchg Ddr Ian Morris. Mae Ian yn awr yn ysgwyddo cyfrifoldeb am fywyd a gwaith Cylchdaith Cymru fel ein Harolygydd, a gofynnwn am fendith Duw arno. Ar yr un pryd roedd y noson yn gyfle i estyn croeso cynnes i Ian wrth iddo ddechrau ei waith fel Arweinydd Ardal Gwynedd a Môn. Roedd yn hyfryd cael cwmni ei briod Diane, ynghyd â chyfeillion o wahanol gapeli ac enwadau. Diolch i Carol Jones, goruchwylydd yr Ardal, am ei threfniadau trylwyr. Cymerwyd rhan gan aelodau o'r gwahanol gapeli a chafwyd geiriau o groeso gan sawl un gan gynnwys Maryl Rees ar ran y Gylchdaith. Cawsom bregeth feddylgar a heriol gan y Parchg Ddr Jennie Hurd. Dymunwn yn dda iawn i Ian yn ei holl swyddogaethau, sydd mor niferus, gan addo iddo ein cefnogaeth lwyraf.

### GWASANAETHAU

Yn ystod Gorffennaf a Medi cawsom oedfaon yng nghwmni Richard Gillion, Philip Barnett, Ffion Rowlinson, Gwyndaf Jones, a Huw Pritchard. Diolchwn iddynt: testun llawenydd yw cael cydaddoli. Rydym yn cofio am aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfa gan obeithio'n fawr eich bod yn gwella a chryfhau os nad ydych yn teimlo ar eich gorau ar hyn o bryd. Cofiwn yn arbennig am Noreen Jones gan ddymuno iddi wellhad buan.

### LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i'r ieuenctid ar eu llwyddiant mewn ysgol a choleg, prentisiaeth a gwaith a dymuniadau gorau i'r dyfodol. Falch iawn ohonoch chi i gyd.

### PEN-BLWYDD

Dathlodd Wynne Roberts, un o flaenoriaid Shiloh, ei ben-blwydd yn 94 ar Awst 24. Llongyfarchiadau, Wynne, a phob iechyd a nerth i chi.

### PRIODAS

Ar Awst 18 yn Shiloh cynhaliwyd priodas Ffion Mair Jones a Dion Vaughan Evans Hughes. Bu Ffion yn aelod ffyddlon o Ysgol Sul Shiloh yn y 1980au. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Llywelyn Moules Jones a'r organydd oedd Wynn Williams. Dymuniadau gorau i Ffion a Dion.

### AELODAU NEWYDD

Braf iawn ydi cael croesawu tri aelod newydd yn Shiloh sef Einir Wyn a Hefin Williams o Rhiwlas a Rhian Evans-Hill hefyd o Rhiwlas. Rydym yn falch iawn o'ch croesawu yma i'r oedfaon ac yn diolch am eich presenoldeb.

### DRWS AGORED

Cofiwch am y Drws Agored bob bore Gwener ar gyfer paned, sgwrs a chwmni. Mae nifer dda yn dod ynghyd a digon o le o hyd i fwy. Croeso cynnes!

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

### BEDYDD

Ym mis Gorffennaf bedyddiwyd Macsen Tomos Mellor gan y Parchedig Richard Gillion. Mab Philip a Sasha a brawd bach i Medi yw Macsen. Mae'n or-ŵyr i'r diweddar J.O. Roberts, blaenor yn Shiloh a phregethwr cynorthwyol a roddodd flynyddoedd lawer o wasanaeth i'r Gylchdaith.



## Bethel, Rhiwbeina

### ER COF ANNWYL

Yn ystod y misoedd aeth heibio bu raid ffarwelio â dau aelod ffyddlon o'r capel. Yn gyntaf clywsom am farwolaeth Arfon Roberts, gynt o'r Felinheli. Bu'n aelod yn Ebeneser, Caernarfon am flynyddoedd ac yn fwy diweddar daeth yn aelod ym Methel, Rhiwbeina. Bu'n gweithio ym Manc Midland mewn nifer o lefydd gan gynnwys Caernarfon, Bethesda a Phorthmadog. Cofiwn ef am ei gymeriad hoffus a'i hiwmor a chydymdeimlwn yn ddwys â'i ferched Carys a Sylvia.

Yn ystod yr haf hefyd cawsom y newyddion trist am farwolaeth Hafwen Glynne Roberts ar Orffennaf 10fed. Ganwyd hi yn Hen Golwyn ym 1935. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Ramadeg Abergele ac yna yn y Coleg Normal, Bangor. Bu'n athrawes mewn sawl ysgol uwchradd ac yn ddiweddarach mewn nifer o ysgolion meithrin. Roedd cerddoriaeth yn rhan bwysig o'i bywyd a medrai ganu'r delyn, yr organ a'r piano. Yn ogystal, roedd ganddi lais hyfryd oedd yn gymorth mawr i'r gynulleidfa ym Methel ar fore Sul. Byddwn yn gweld ei heisiau a chydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod Gwyndaf, y plant Rhys ac Eirian, a'r teulu oll.

### CODI ARIAN

Ar 27 Mehefin cynhaliwyd Bore Coffi yn y capel er budd Canolfan y Fron, Llandochau. Cyflwynwyd £400 i'r elusen. Yn ystod yr haf hefyd bu ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, yn cerdded o amgylch Cymru ar daith noddedig 'Hadau Gobaith'. Roedd y daith olaf yn cychwyn o Salem, Treganna ar 13 Gorffennaf. Fe gyflawnodd 70 km a chodwyd swm sylweddol at Gymorth Cristnogol.

### BEDYDD

Ar 17 Gorffennaf bedyddiwyd Megan Elin Sofia, merch Bethan a Matthew Preece. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Evan Morgan.

### LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Angharad a Gavin ar enedigaeth Tomos John, brawd bach i Alffi Jac ac ŵyr arall i Carol a Tony Davies.

### BORE SUL

Mae croeso cynnes iawn i bawb yn ein gwasanaethau am 10.15 ar foreau Sul.

**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS

## *Ebeneser, Dolgellau*

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Alan ac Alison Woodbridge ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

**CYDYMDEIMLO**
Bu farw Mr Harry Walker, ewythr Jane Thomas yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Jane a'r holl gysylltiadau teuluol yn eu colled.

**OEDFA WAHANOL**
Ar ddechrau gwyliau'r ysgol cawsom oedfa wahanol o dan arweiniad y Chwaer Eluned Williams i anrhydeddu Nesta ac Efin sydd mor driw i'n hoedfaon. Daethom i gyd mewn dillad addas ar gyfer glan y môr, gan gynnwys hetiau a sbectol haul - er y glaw a'n croesawodd ni ar y bore Sul hwnnw! Cafodd y Sêt Fawr ei thrawsffurfio i fod yn draeth a phopeth yn gysylltiedig â hynny.

I ddechrau, rhoddwyd pwyslais ar ŵyl, neu gymryd gwyliau neu ddiwrnod i ymlacio a gorffwys fel y dymunwyd gan Dduw, a greodd y byd mewn chwe diwrnod a gorffwys ar y seithfed yn ôl yr hanes yn Llyfr Genesis. Nesta ac Efin yn mwynhau seibiant o'r ysgol a gwyliau hir yr haf.

Yna dyma Eluned yn edrych yn ei bag, a chael braw o weld ei bod wedi anghofio ei phicnic! Yn syth fe gynigiodd aelodau o'r gynulleidfa rannu â hi, yn union fel y gwnaeth y bachgen yn stori Porthi'r Pum Mil a gynigiodd rannu ei fwyd. Wrth rannu cawsom ninnau ddigon a mwy, sy'n gwneud i ni gofio'r alwad arnom yn gyson i rannu beth sydd gennym ag eraill sydd mewn angen. A wyddoch chi beth, er gwaethaf y glaw,



daeth y dyn hufen iâ, a chawsom seibiant bach i'w fwynhau, gydag Efin yn hel y sbwriel yn ei fwced. Dyna hwyl a gawsom, yn blant ac oedolion, tra'n cael ein hatgoffa o bwysigrwydd cymryd seibiant a bod yn barod i ddangos haelioni tuag at eraill, fel y cyflawnir ewyllys Duw.

**ARWEINYDD ADDOLIAD**
Ar fore Sul 18fed Medi, byddwn yn croesawu ac yn derbyn Alison Woodbridge drwy ei chomisiynu fel Arweinydd Addoliad. Dymunwn bob bendith i Alison yn ei gwaith.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## *Ardal Bathafarn*

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog iawn i Edwina a Rob Stephens ar ddathlu eu priodas aur. Fe wnaethant briodi ym Mathafarn yn Awst 1972, y briodas olaf yn hen Gylchdaith Rhuthun cyn ymuno â Chylchdaith Corwen. Pob bendith a hapusrwydd iddynt ar gyfer y dyfodol.

**DYMUNIADAU GORAU**
Pob bendith i Hywel Edwards, Seion Glyndyfrdwy, sydd wedi symud i gael gofal yng nghartref yr Hen Ficerdy, Llangollen. Cofion anwylaf ato.

Dymuniadau gorau hefyd am wellhad llwyr a buan i Olwen Griffiths a Susan James, a chofion cynhesaf at Gwyn Atkinson sydd wedi bod yn yr ysbyty. Meddyliwn amdanoch ac am bawb arall sy'n methu mynychu oedfaon oherwydd amrywiol resymau.

**PROFEDIGAETH**
Yn ystod mis Awst bu farw Glyn Jones, Ty'n Llechwedd, Gwyddelwern gynt, a hynny ychydig wythnosau yn unig ar ôl Gladwen ei briod. Roedd Glyn yn gymeriad annwyl iawn ac roedd pawb yn hoff ohono. Bu'n hynod o selog a theyrngar i gapel Wesle Gwyddelwern ac i hen Gylchdaith Corwen a thrachefn Ardal Bathafarn. Daeth tyrfa i dalu'r gymwynas olaf iddo yng nghapel Bathafarn dan arweiniad Elizabeth Jones, y Parchedig Brian Huw Jones ac Elwyn Ashford Jones, gyda Meta Beech wrth yr organ. Talwyd teyrnged deimladwy i Glyn gan ei fab Ifor. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Eglwys Gwyddelwern. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â'r tri mab a'r teulu i gyd. Meddyliwn amdanoch yn eich hiraeth am un hoffus iawn: ei golli'n dristwch a'i gofio'n ddiddanwch.

**GWASANAETHAU UNDEBOL**
Hyfryd cael dod at ein gilydd unwaith eto fel capeli yn nhref Rhuthun. Y Parchg Gwyndaf Richards, Llanrhaeadr ym Mochnant, oedd y cennad ym Mathafarn; Elwyn Ashford Jones ym Methania; ac Alun Moreton Thomas yn y Tabernacl. Ni fu'n bosibl i R.W. Jones, Wrecsam, ddod i gynnal gwasanaeth ym Mhendref oherwydd gwaeledd. Da deall ei fod adref o'r ysbyty a dymunwn adferiad iechyd llwyr iddo.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## *Saron, Bethel, Arfon*

**COLLI DAFYDD**
Ychydig cyn i rifyn diwethaf y *Gwyliedydd* fynd i'r wasg, clywsom y newyddion trist am farwolaeth Mr Dafydd Williams. Roedd Dafydd yn berson tawel, annwyl a pharod iawn ei gymwynas bob amser, yn ffyddlon i'r holl oedfaon, a phob amser yn eistedd yn dawel a di-stŵr yn y sêt gefn. Bu'n gweithio am flynyddoedd fel mecanic i'r Cyngor Sir a fo hefyd fyddai'n gyrru un o'r lorïau halen pan fyddai rhew ac eira yn broblem. Ar adegau felly byddai Dafydd yn gorfod gweithio drwy'r nos am gyfnodau hir i gadw ffyrdd y wlad ar agor. Mae ein cydymdeimlad fel Eglwys ac fel Ardal yn fawr iawn gyda'i weddw, Olwen, sydd ar hyn o bryd yng nghartref gofal Plas Pengwaith, Llanberis, ynghyd â'r teulu i gyd yn eu hiraeth a'u galar o golli un oedd mor annwyl yn eu golwg.

Dyma'r trydydd aelod i ni fel Eglwys ei golli yn ystod y flwyddyn hon ac yn drist iawn, does na neb yn dod yn eu lle nhw chwaith. Gweddïwn ar i Dduw ein cadw fel Eglwysi rhag digalonni. Diolch am gael adnabod Dafydd.

**GOHEBYDD .** *RJ*



## *Tabernacl, Llanfyllin*

**PRIODAS**
Bu sawl achlysur hapus yn y capel yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ddiwedd Gorffennaf cynhaliwyd gwasanaeth priodas Megan Lloyd Evans, Rhiw Fawr a Carwyn Howells o Lanrhaeadr. Gweinyddwyd gan y Parchedig Gwyndaf Richards a chynhaliwyd y wledd briodas yn Rhiw Fawr. Bu Meg yn aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul ac yn barod i gymryd rhan mewn gwasanaethau teuluol. Dymuniadau gorau i'r ddau am ddyfodol iach a hapus gyda'i gilydd.

**BEDYDD**
Achlysur hapus arall oedd gwasanaeth bedydd Neli Haf, Cysgod Pwynt, sef merch fach Tom a Sarah Vaughan. Mr Tom Ellis oedd yng ngofal y gwasanaeth hwn. Pob bendith ar y teulu bach newydd.

**GENEDIGAETH**
Ganed merch fach o'r enw Lois Annie draw ger Pwllheli, sef gôr wyres fach arall i Tom a Mair Ellis. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

**PRIODAS DDIEMWNT**
Rydym fel aelodau yn llongyfarch John a Pat Ellis ar achlysur eu priodas ddiemwnt. Rydym yn arbennig o ddiolchgar iddynt am eu gwasanaeth i gapeli'r ardal.

**PRIODAS AUR**
Llongyfarchiadau i Olwen a Gwyn Jones, Minafon, ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ganol Awst. Dymuniadau gorau gan aelodau'r Tabernacl i ddau sy'n gwneud cymaint dros gapel Soar.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ganol Awst oedd yn ein hatgoffa o'r holl waith y mae Gweithredu dros Blant yn ei wneud. Ruth Weston oedd y cennad ac yn bresennol roedd Cadeirydd Gogledd Cymru yr elusen. Casglwyd £93 yn dilyn yr oedfa. Yn ogystal, casglwyd £262.95 mewn bocsys casglu. Mae Keith a Decia Blacker (trefnwyr) yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth.

**EICH HOFF STORI**
Thema ein gwasanaeth cyntaf ym mis Medi oedd 'Eich hoff Stori'. Dewisodd pump o'r gynulleidfa y storïau canlynol: Dafydd a Goliath; Y Samariad Trugarog; Y bachgen Iesu ar goll yn Jerwsalem; Moses yn yr hesg; a Ruth a Naomi. Edrychwn ymlaen am wasanaeth tebyg eto.

**BARDD Y GADAIR YN NHREGARON**
Dyna falch oeddem o weld Llŷr Gwyn Lewis yn codi i sain y corn gwlad ym mhafiliwn Tregaron. Bu Llŷr yn ymwelydd cyson â gwasanaethau'r Tabernacl pan oedd ar ei wyliau yn Llanfyllin gyda Taid a Nain, sef Emrys a Derwenna Jones (aelodau gweithgar y Tabernacl). Llongyfarchiadau enfawr iddo a chofion cynnes at ei nain, Derwenna yng Nghaernarfon.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## *Eglwys Unedig Colwyn*

**CYDADDOLI**
Drwy gydol mis Awst buom yn cydaddoli gyda'n cyfeillion yng nghapeli eraill yr ardal. Cynhaliwyd yr oedfa fore Sul 28 Awst yn Horeb. Pleser mawr oedd croesawu cyfeillion i'n plith. Ein cennad oedd y Parchedig Brian Huw Jones, Prestatyn a diolchwn iddo am wasanaeth bendithiol iawn. Yna ym mis Medi cawn ymuno â'n cyfeillion yn Ebeneser, Hen Golwyn, gan edrych ymlaen hefyd at gael eu cwmni hwythau yn Horeb ym mis Hydref.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

**SULIAU UNDEBOL**
Cawsom Suliau bendithiol iawn yn ystod mis Awst yn Eglwysi Pensarn, Capel Coffa a Phreswylfa. Braf oedd croesawu ein gweinidog newydd a'i briod, y Parchedig Marc a Mrs Margaret Morgan. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

**GWELLHAD BUAN**
Mae rhai o'n haelodau yn dal heb fod mewn iechyd da – Iris Jones yn Ysbyty Llandudno ac Eirwen Jones yn ei chartref. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn dymuno gwellhad buan i chi.

**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

## *Pisgah, Rhiwlas*

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Osian Wyn Rowlands ar ei ganlyniadau ardderchog yn ei arholiadau TGAU ac ar dderbyn gwobrau yn ei ysgol mewn Cymraeg, Hanes a Bagloriaeth Cymru. Pob dymuniad gorau iddo gyda'i gwrs Lefel 'A'. Mae Osian yn ffyddlon iawn i oedfaon Capel Pisgah.

**GOHEBYDD .** CAROL JONES

## *Salem, Rhyd y Foel*

**GENEDIGAETH**
Llongyfarchiadau calonnog i Elwyn a Julie, Cefn Castell, ar enedigaeth Anna Mair, chwaer fach i Nia ac wyres i Bob Roberts, Tan yr Ogof.

**GWOBRWYO**
Llongyfarchiadau i Beth Megan ar ennill Gwobr O.M. Roberts (Cadeirydd cyntaf Llywodraethwyr Ysgol y Creuddyn) a hynny am ei chyfraniad arbennig i Gymreictod ac i fywyd Ysgol y Creuddyn.

**YMDDEOLIAD**
Dymuniadau gorau i Debbie Roberts, Tan y Foel, ar ei hymddeoliad o Ysgol y Creuddyn. Yn ystod ei gyrfa bu Debbie yn dysgu mathemateg i nifer fawr o ddisgyblion ac yn uchel iawn ei pharch.

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau i Morgan, ŵyr John a Margaret, Ty'n Ddôl, ar ei ganlyniadau A.S. Hefyd i Steffan ar ei ganlyniadau TGAU ac i Beth ar ei chanlyniadau Lefel A. Bydd Beth yn mynd ymlaen i'r Brifysgol yng Nghaerdydd i ddilyn cwrs dysgu. Dymuniadau gorau i chwi i gyd i'r dyfodol.



**DYDD GWEDDI'R BYD**
Yn ystod gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd ym mis Mawrth eleni cawsom becyn o hadau blodau haul i'w plannu a dyma rai a dyfodd yng ngardd Ieuan a Siân.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## *Bethel, Prestatyn*







### BLWYDDYN NEWYDD

Roedd yn bleser cael croesawu pawb yn ôl i flwyddyn Gyfundebol newydd ac edrychwn ymlaen at flwyddyn gyffrous o addoliad, bendith a chyfeillgarwch. Anfonwn ein dymuniadau da a'n gweddïau at ein holl aelodau sydd yn methu dod i'r oedfaon oherwydd gwaeledd, gan ddymuno gwellhad i bawb. Diolchwn i'r Parchedig Brian Huw Jones am baratoi oedfa i'r cleifion bob wythnos. Dymunwn yn dda hefyd i bawb sydd ar fin cychwyn taith newydd, yn enwedig ein plant sydd yn cychwyn blwyddyn newydd yn yr ysgol.

### ADDOLI YN YSTOD YR HAF

Cynhaliwyd oedfaon undebol yn ystod mis Awst gydag ein chwaer Eglwys, Rehoboth. Daeth Dafydd Iwan atom ac roedd y plant a'r oedolion wrth eu boddau yn gwrando arno'n canu nifer o ganeuon gyda'r gitâr ac yn egluro eu hystyr i'r plant yn gyntaf a'u cysylltiadau gyda'r Beibl. Yna cawsom bregeth ganddo am Borthi'r Pum mil ac arwyddocâd y stori i ni heddiw. Mae Dafydd Iwan yn gyfarwydd i lawer iawn o blant heddiw oherwydd ei fod yn canu'r gân 'Yma o Hyd' ar y maes pêl droed - a daeth amryw o'r plant yn eu dillad pêl-droed i'r oedfa! Diolch o galon i Dafydd am roi o'i amser ar ddiwedd yr oedfa i sgwrsio gyda phob teulu a rhoi cyfle i'r rhieni dynnu lluniau.

Mwynhawyd oedfa gyda'r Parchedig Arglwydd Roger Roberts hefyd ac roedd yn fraint gwrando ar ei neges gyfoes. Diolchwn iddo am yr holl flynyddoedd o wasanaeth y mae wedi eu rhoi i'r Eglwys Fethodistaidd. Mewn oedfa a arweiniwyd gan y Dr Prydwen Elfed Owens, y neges oedd adeiladu ar ein llwyddiannau ac edrych am ffyrdd newydd i ddatblygu'r Capel yn y dyfodol. Rhoddodd nifer o argymhellion i ni a fu yn destun llawer o drafodaeth. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw agor drysau a rhoi cyfle i aelodau o bob oed gyfrannu at waith y Capel. "Efallai eich bod chi yn ardderchog yn eich swydd, ond rhowch gyfle i eraill ddisgleirio".

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchwn Prydwen ar gyhoeddi ei llyfr newydd, 'Malwen bach fel fi... Yn cloddio am aur'. Rydym i gyd yn sylweddoli fod dirywiad yn nylanwad Cristnogaeth yng Nghymru ac yn y niferoedd sy'n mynychu lle o addoliad ond aeth Prydwen ar bererindod bersonol 'i gloddio am aur' drwy gyfweld â 60 o bobl sy'n weithgar mewn enwadau a mudiadau Cristnogol. Ar sail y cyfweliadau fe welir fod digon o egni, bwrlwm, cyffro a chynnwrf amlwg mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru heddiw. Mae'r llyfr yn cynnwys llawer o esiamplau o ddulliau gweithredu y gellir eu haddasu a'u datblygu yn ein heglwysi. Llongyfarchiadau hefyd i Geraint am ei ran yn y llyfr.

### TRIP YR YSGOL SUL

Pan oeddwn i yn blentyn y 'Trip' oedd taith mewn bws i rywle fel Pwllheli, Betws y Coed, Blackpool neu Southport ond wrth gwrs erbyn heddiw mae pethau wedi newid! Aeth y plant, eu rhieni a'r athrawon Ysgol Sul i chwarae 'Ninja Tag' eleni yn Heulfan newydd y Rhyl. Pawb wedi cael llawer o hwyl mae'n debyg!

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## *Pendref, Dinbych*

### ADDOLI YM MHENDREF

Yn ystod mis Gorffennaf cawsom oedfa fendithiol dan ofal yr Hybarch Bernard Thomas. Ar y Suliau pan nad oedd pregethwr ar gael cawsom oedfaon dan ofal aelodau'r capel. Blaenor mis Gorffennaf oedd Hywel Evans gyda Vera Savage yn cyfeilio a Gwyn Williams yn arwain y canu – diolch i'r tri am eu gwaith. Ein harfer yn ystod mis Awst yn nhref Dinbych yw cynnal oedfaon undebol gyda gwasanaethau yn y Capel Mawr, Capel Lôn Swan, Capel unedig y Fron a'r Brwcws ac yma yng Nghapel Pendref. Eleni ym Mhendref cawsom oedfa dan ofal yr Hybarch Bernard Thomas. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'n holl aelodau sydd am wahanol resymau yn methu â bod gyda ni.

### DYMUNIADAU GORAU

Rydym fel Eglwys yn llongyfarch ein gweinidog y Parchg Ddr Jennie Hurd ar gael ei phenodi'n Ganon Ecwmenaidd Anrhydeddus yng Nghadeirlan Llanelwy. Hoffem ddiolch yn fawr i Jennie am ei gofal drosom yn ystod y flwyddyn Gyfundebol a dymunwn bob llwyddiant iddi fel cyd gadeirydd y Synod newydd o Fedi'r 1af ymlaen. Edrychwn ymlaen at groesawu ein gweinidog newydd y Parchedig Marc Morgan.

**GOHEBYDD .** MARY JONES









## *Ebeneser, Treuddyn*

### PROFEDIGAETH

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Mr Ron Griffiths ar Fedi 3ydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd cyfraniad Ron i'r capel yn enfawr fel blaenor a dechreuwr canu ers blynyddoedd maith. Bydd colled fawr ar ei ôl, ei addfwynder a'i barodrwydd bob amser i roddi cymorth gyda beth bynnag oedd angen ei wneud ynglŷn â gwaith y capel. Trist yw meddwl mai ond rhyw fis ynghynt y dathlodd Ron ei ben-blwydd yn 90 oed. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn âi feibion, David a Kenneth a'u teuluoedd.

### GWASANAETHAU

Braf iawn oedd cael croesawu'r Parchedig Eirlys Gruffydd Evans yn ôl i'n gwasanaethu ar Fedi 4ydd ar ôl cyfnod o seibiant yn dilyn llawdriniaeth. Diolchwn hefyd i Owain Morgan am ddod atom am y tro cyntaf i bregethu yn ein Cyfarfod Pregethu ar Fedi 18fed. Rydym nawr yn edrych ymlaen at groesawu'r Parchedig Ddr Jennie Hurd i gynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch ar nos Sul, Hydref 9fed am 6 o'r gloch.

### COFION

Rydym yn anfon ein cofion cynhesaf at bawb sy'n methu â mynychu'r capel ar hyn o bryd oherwydd gwaeledd.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES





### LLONGYFARCHIADAU

Cafodd dwy o'n haelodau eu hanrhydeddu gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn Eisteddfod Tregaron ym mis Awst, am eu gwaith diflino dros nifer o flynyddoedd er budd Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn. Gwelir Eiddwen Jones a Margaret Roberts yn derbyn eu Tystysgrifau gan Gary Owen. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt.

## *Ebeneser, Trefor, Môn*

### FFARWELIO A CHROESAWU

Yn anffodus, oherwydd achos o Covid bu raid i ni ganslo gwasanaeth olaf y Parchedig Richard Gillion yn y capel. Fodd bynnag cafwyd cyfle i ffarwelio a diolch yn swyddogol iddo mewn Cyfarfod Anrhegu yn Shiloh, Tregarth bnawn Mawrth 19 Gorffennaf. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg Ddr Jennie Hurd a dymunwyd yn dda i Richard gan bawb yn Ardal Gwynedd a Môn. Diolch yn fawr iddo am ei waith yma yn Ebeneser dros y pum mlynedd diwethaf. Pob dymuniad da hefyd ar gyfer y gwaith yn y Gylchdaith newydd yn ne Cymru.

Ychydig wythnosau yn ddiweddarach ar 1 Medi cafwyd cyfarfod arall yn Nhregarth sef Gwasanaeth Croeso i'r Parchedig Ddr Ian Morris. Ef fydd ein gweinidog ac rydym yn edrych ymlaen at ei groesawu i Drefor. Bydd ganddo her enfawr o'i flaen gan ei fod yn rhannu ei amser rhwng Gwynedd a Môn a Morgannwg. Gyda chefnogaeth pawb rwy'n siŵr y bydd yn llwyddo.

**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

## *Jerwsalem, Wrecsam*

### HANNER CAN MLWYDDIANT

Yn ystod yr ail wythnos ym mis Gorffennaf 1972 cynhaliwyd sawl oedfa i ddathlu agoriad swyddogol capel newydd yr Eglwys Fethodistaidd yn Rhodfa Pen-y-Maes, Wrecsam, sef Jerwsalem. Ac felly priodol iawn, a hithau'n 50 mlynedd ers hynny, oedd ein bod yn dathlu'r achlysur ar fore Sul 10fed o Orffennaf eleni. Penderfynwyd peidio â gwneud 'ffŷs' gormodol ond cynnal oedfa arferol gan weinyddu'r Cymun. Pleser oedd cael croesawu ffrindiau a pherthnasau i'r aelodau, gan gynnwys rhai a fu'n bresennol yn yr oedfaon yn 1972. Un gwestai arbennig oedd Ruth, ynghyd â'i theulu a'i rhieni Ieuan a Siân Price, Rhyd-y-foel; Ruth oedd y plentyn cyntaf i gael ei bedyddio yn y capel newydd. Wedi'r oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu a hel atgofion dros baned a danteithion.

**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN


## *Bethel, Mynydd y Fflint*

### DIOLCH AM DYSTIOLAETH

Ar bnawn dydd Mercher 31 Awst cynhaliwyd yr oedfa olaf ym Methel, Mynydd y Fflint. Cyfle oedd hwn i ddiolch am dystiolaeth Bethel ar hyd y blynyddoedd. Arweiniwyd yr oedfa gan y gweinidog, y Parchg D Marc Morgan. Roedd Mrs Eleri Jones wrth y piano. Arweiniwyd y gweddïau gan y Parchg Ddr Jennie Hurd, Cadeirydd Synod Cymru ac un o gyn-weinidogion yr eglwys. Cafwyd darlleniad gan Margaret Morgan, fel cynrychiolydd stiwardiaid yr eglwys. Darllenwyd cerdyn o gyfarchion oddi wrth Eglwys St Thomas; mae'r rhan fwyaf o aelodau Bethel wedi symud i'r fan yna. Wrth ddod i mewn i'r oedfa, rhoddwyd copi o *Hymns and Psalms* (gydag enw Bethel arno) i bawb ynghyd â nod llyfr i gofio'r achlysur ac wrth adael, soser o lestri'r capel. Ar ddiwedd y gwasanaeth fe gaewyd y Beibl mawr fel arwydd o ddatgorffori'r eglwys ym Methel.

**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

## *Ebeneser, Tywyn*



### ER COF ANNWYL


Trist iawn yw rhannu'r newydd fod Noel Williams, priod annwyl Ann, wedi marw'n dawel ar 16 fed o Orffennaf yn Ysbyty Gwynedd. Roedd capel Ebeneser, lle bu'n flaenor am dros ddeugain mlynedd, yn rhan fawr o'i fywyd. Gwasanaethodd hefyd fel ysgrifennydd, organydd a thrysorydd y capel, ac fel ysgrifennydd y Gylchdaith. Roedd yn rhoi teulu, cymuned a chapel wrth galon popeth ac yn barod drwy ei oes i sefyll dros yr hyn a gredai ynddo. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei fywyd yng nghapel Ebeneser ar 29 Gorffennaf dan ofal y Parchedig Iwan Llywelyn Jones gyda chymorth y Parchedig Patricia Grudgings. Roedd yn wasanaeth cynnes, teimladwy a theilwng iddo.

**GOHEBYDD .** DELYTH STOW

# Moli a Dathlu ym Mhrestatyn







# Apêl Casglu Anrhegion

Action for Children
Gweithredu dros Blant





## Mae'r Nadolig ar y ffordd. Ydych chi am helpu Siôn Corn?

Beth am brynu anrheg(ion) ychwanegol, pan fyddwch allan yn siopa, i blentyn/person ifanc (o 0 i 25 oed) na fydd efallai yn cael anrheg unrhyw adeg arall o'r flwyddyn.

Mae *Gweithredu dros Blant* yn rhedeg sawl prosiect ac ar adeg y Nadolig mae'n gyfle i roi anrheg i'r plant/pobl ifanc.

Dyma engreifftiau o bethau y gellir eu rhoi:

- Gemau Bwrdd – i bob oedran. Llyfrau.
- Jigsôs – i bob oedran. "Selection boxes". Llyfrau Lliwio a Deunydd Lliwio. Nwyddau ymolchi – i bobl ifanc. Cardiau Rhodd (*Gift Cards)* x £5.

*Gofynnir yn garedig i chi beidio â lapio'r anrhegion.*

**Am fwy o fanylion cysylltwch â:**

Y Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF

☎ 01978 756717
cwrteden@gmail.com

BYDD EU HANGEN ERBYN DIWEDD MIS TACHWEDD